# Clecs Camwy

**Papur Bro Dyffryn Camwy** **Hydref 2017**

## Croeso i griw yr Urdd 2017!

Daniel Rees Owain Ash Elen Evans Mared Davies Gwenno Hughes

Joanna Zajac
Celyn Williams
Elen Iorwerth
Alwen Morris
Rebeca Ellis
Manon Williams
Ethan Williams
Twm Ebbsworth
Lois Ellis



Gruffydd Williams
Ifan Roberts
Osian Evans
Gwion Lloyd
Dafydd Orritt
Robat Lloyd
Lloyd Davies
Daniel Rowbotham
Hannah Wright

Marged Williams Lois Green Cadi Edwards Mared Edwards Elen Roach

# Ymweliad Esyllt â Chymru

Bu Esyllt Nest Roberts a'i meibion Mabon ac Idris yn Nghymru am bedwar mis yn ystod 2017. Peidied â meddwl mai gwyliau oedd yr ymweliad! Tra oedd y bechgyn yn mynychu ysgol gynradd Bro Plenydd yn Y Ffôr yn ddyddiol roedd Esyllt yn brysur efo rhaglen amrywiol. Bu'n arsylwi yn yr ysgol gynradd honno a hefyd yn Ysgol Uwchradd David Hughes, Porthaethwy. Aeth i weld y gwaith sydd yn cael ei gyflawni yn uned ail-iaith ysgol Llangybi hefyd. Mae plantos di-Gymraeg yno am dymor ac yn dod yn rhugl yn fuan. Gan fod Esyllt yn ymddiddori yn hanes Richard Jones Berwyn (sydd yn un o hynafwyr teulu ei gŵr, Cristian Lewis) bu yn gwneud gwaith ymchwil yn archifdy Prifysgol Bangor am ei fywyd a'i waith. Mae'n siwr byddwn yn clywed mwy am hyn yn mis Rhagfyr. Bu Esyllt hefyd yn ymweld â Chanolfan Gerdd William Mathias yn Nghaernarfon i arsylwi gwersi telyn yno; yn arsylwi gwersi telyn mewn ysgolion cynradd; hefyd yn arsylwi gwersi telyn lefel uwch; ac yn gweld sesiynau therapi cerdd sydd yn defnyddio'r delyn mewn cartref gofal dementia. Ac ym mis Mehefin cafodd Esyllt ei henwi yn 'Fardd y Mis' ar Radio Cymru gyda'r cyfrifoldeb o lunio cerddi am wahanol bynciau. Wedi hyn oll rhaid oedd cael gwyliau! Ymunodd Cristian â hwy am rai wythnosau ac i ffwrdd â nhw i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ynys Môn mewn pabell menthyg a chael glaw a mwd ofnadwy ddechreu'r wythnos! Roedd Benito Jones ac Esyllt yn cynrychioli'r Wladfa ar y llwyfan yn ystod seremoni'r coroni a'r fedal ryddiaith ac mewn gweithgareddau eraill yn yr Eisteddfod o ddydd Sul i ddydd Mercher. Hefyd, roedd Esyllt yn siarad yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Cymru-Ariannin ar y dydd Iau. I ddilyn, bu teithiau amrywiol cyn troi nôl am adref efo'u bagiau yn llawn atgofion melys ac anrheg bwysig i Lyfrgell Eluned Morgan yn y Gaiman, sef y gyfrol hyfryd a gyhoeddodd Robin Gwyndaf am Hedd Wyn, a fu farw gan mlynedd yn ôl ar feysydd y rhyfel mawr yn Ewrop. Mae'r llyfr gwerthfawr yma yn barod yn y llyfrgell ac mae croeso i chi bori trwyddo. Diolch o waelod calon i Robin am ei rodd (anfonodd gopi arall i'r Andes) ac i Esyllt am ei gario yma.

Dyma un o'r cerddi wnaeth Esyllt gyfansoddi tra oedd yn Fardd y Mis ar Radio Cymru:

### Siswrn Dafydd Williams, Aberystwyth

(Gŵr ifanc a aeth ar goll ar y paith ym Mhatagonia, oriau'n unig ar ôl iddo gamu oddi ar fwrdd y Mimosa. Roedd yn un o adlonwyr ffraeth y fordaith. Daethpwyd o hyd i'w gorff ger Llyn Mawr rai blynyddoedd yn ddiweddarach a'i adnabod am fod ei siswrn teiliwr ar ei weddillion. Hyd heddiw gelwir y lle hwnnw yn Bant yr Esgyrn.)

Dangos imi, lefnyn bach,
y ffordd at afon Camwy'n fyw ac iach;
anela flaen dy ddwygoes fain
i 'nhywys gam wrth gam drwy'r llwyni drain.

Mi fapiwn lwybrau dros y paith
â'th gwmpawd arian, hyd at ben y daith,
nes nyddu patrwm cywrain, clir
drwy frethyn bryniau'r môr a thonnau'r tir.

Datoda bwythau'r henwlad bell,
mi frodiwn wedyn Wladfa newydd, well;
"Ffarwel i Aber…", codaf law
ar Ben Maes Glas a'r castell hwnnw draw!

Cei rwygo'r bogail ar ei hyd
(mae rheitiach mynwes yma 'mhen draw'r byd!)
a chlymwn wreiddiau newydd sbon
yng nghynfas lân y Batagonia hon.

Dangosa imi, lefnyn bach,
pa ffordd i gyrraedd afon Camwy'n iach;
paid torri hyd fy nhaith fan hyn
rhag i'r hen gychwr hwylio cyn y bore gwyn.

*Esyllt Nest Roberts*



Anne Jones Jenny Jones

# Menter Patagonia

Wel dyma ni, rydyn ni ar droad Eisteddfod y Wladfa ac mae ein hamser ni yma yn gwibio heibio heb i´n traed gyffwrdd a´r llawr! Mae hi wedi bod yn wyth mis andros o brysur ond mae hi wedi bod yn gyfnod braf iawn i ddod i adnabod y cymunedau rydyn ni´n rhan ohonynt.

Heb eich ddiflasu yn ormodol, braslun rhoddaf o´r holl bethau rydym wedi eu trefnu neu bod yn rhan ohonynt dros y misoedd diwetha. Mae ein gwaith ni, boed fel athrawon neu swyddogion Menter yn cynnwys Trelew, Gaiman, Porth Madryn, Dolavon a Rawson.

Fe ddechreuodd y gwersi ar ddechrau mis Mawrth ac yng nghanol heulwen olaf yr Hâf roedd pawb yn ysu i ddechrau dysgu a siarad Cymraeg. Fe´n cyfarchwyd gyda dim ond cyfeillgarwch a pharodrwydd i ymroi i fywyd a diwylliant Cymraeg. Mae ein gwersi wedi eu rannu rhwng Drelew a´r Gaiman a dwi´n hynod o falch weld cynifer o bobl sydd â diddordeb mewn dysgu´r iaith. Mae yna amryw o ddosbarthiadau ar draws y Dyffryn, o ddechreuwyr pur i sesiynau sgwrsio lle mae´r rhuglder yn llifo fel tasech yng nghefn gwlad Cymru!

Rydyn ni wedi ymgeisio gwneud yn siwr ein bod ni´n rhoi cymaint o wybodaeth ag y gallwn o holl ddiwgyddiadau Menter Patagonia ar ein dudalen Facebook. Lle fydden ni heb y cyfryngau cymdeithasol erbyn hyn sgwn i?! Pawb yn gwybod busnes pawb er ein bod ni pen pella´r byd!

Felly, bu mis Mawrth yn llawn dop gyda swper croesawu yn y Gaiman ac yn Nhrelew, dechrau Clwb yr Urdd a hefyd cyfarfod cyntaf Clwb Merched Gwawr y Gaiman. Prif nôd y clwb hwn yw i ferched yr ardal gyfarfod unwaith y mis i gael hwyl ac ymarfer siarad Cymraeg. Cynhaliwyd y cwrdd gyntaf yn Nhŷ Camwy ac fe addysgwyd y newydd-ddyfodiaid o Gymru ar sut i goginio empanadas.

Yna, i fewn a ni i fis Ebrill ac hen fis gythryblus oedd hi i ddweud y gwir. Cawsom Gwrdd Diolchgarwch hyfryd ar yr ail o Ebrill yng Nghapel Bethel dan arweiniad Gladys Thomas ond, gyda´r Hydref wedi cyrraedd, y glaw a ddaeth gyda hi ac yna trafferthion y dŵr. Ie, roedd y glaw wedi ein dilyn ni o adref! Ond, o ddifrif fe achosodd broblemau enfawr yma yn y Dyffryn ac fe buom heb ddŵr am bron iawn i dair wythnos. Caewyd yr ysgolion gan y Llywodraeth ac felly effeithiwyd dosbarthiadau o´r herwydd. Yn ffodus fe barhawyd y Clybiau Cymraeg i blant yn ogystal â´r gwersi oedolion. Ac er gwaetha´r dŵr palwyd ymlaen i gynnal ddigwyddiadau – gan osgoi trefnu unrhywbeth a oedd angen dŵr! Ar ddechrau Ebrill, croesawyd Tecwyn a Rhiannon Ifan i´n plith ac fe´n ddiddanwyd gan amrywiaeth o weithdai a chyngherddau cerddorol. Diolch o galon iddynt am eu holl gwaith yma. Yna cynhaliwyd y Ffair Amaeth blynddol a buom yn brysur yn helpu´r Côr Cymysg i weini Tê Cymreig yn yr oruwch ystafell y Gampfa. Penderfynwyd ar gynnal Clwb Cymraeg Merched Trelew hefyd ac felly fe gynhalion Noson Gyri a Chymdeithasu yn Nhrelew. Roedd Ysgol yr Hendre ym Moreno yn orlawn a diochwn yn fawr iawn i Ana Chiabrando am goginio blasus! Ym mis Mai, cynhaliwyd ail cyfarfod Gwawr y Gaiman gyda noson Ymarfer Corff gyda Florencia yng ngampfa FEM yn y Gaiman.

Ar ddechrau Mehefin a gyda´r ysgolion a´r Dyffryn yn araf bach yn dod nôl i normalrwydd, roedd hi´n amser i ymweld â dosbarthiadau Madryn gyda Lorena, ac am groeso hyfryd. Fe adolygwyd gyda´r tair oedd am eistedd yr arholiad Mynediad ac yna fe gynhaliwyd sesiwn sgwrsio gyda´r dosbarth meistroli. Braf oedd cyfarfod â thrigolion Madryn a diolchwn yn fawr am y twmpath dawns a´r bwyd a pharatowyd i ni ar ôl y dysgu.

Cawsom noson bendigedig hefyd ar ddechrau´r mis yn Eisteddfod Wirion y Gaiman a drefnwyd gan Mirain Dafydd. Cawsom lawer o hwyl wrth wylio pobl yn garglo emynau, rapio, barddoni a llawer mwy. Diolch i Mirain am drefnu noson hwylus. Cynhaliwyd y Ffair Lyfrau yn y Gaiman ar yr ail benwythnos ac felly i ddathlu ugain mlynedd y prosiect fe drefnwyd creu stondin Menter Patagonia. Yn ogystal, ar y prynhawn Sadwrn trefnwyd i Jenny Jones, Mirain Dafydd a

Anne Jones Jenny Jone

Glesni Evans gyflwyno am eu profiadau yn dysgu dramor. Cafwyd cyflwyniadau hynod o ddifir gan y dair wrth iddynt sôn am ddysgu yng Nghanada, Vietnam ag Affrica. Ar ddydd Gwener y nawfed o Orffennaf, cynhaliwyd arholiad Mynediad CBAC yng Ngholeg Camwy. Braf oedd gweld 16 o fyfyrwyr y Dyffryn yn ymgeisio´r arholiad. Da iawn i bawb!





Cawsom dwy benwythnos prysur ond roedden yn barod i groesawu Myfyrwyr Ysgoloriaeth Sanatander i´r Dyffryn o eira´r Andes. Cyrhaeddodd Esyllt ag Eirian, ac heb gael cyfle i ddadlaeth bron, yn syth a nhw i fewn i amserlen prysur. Am bythefnos roeddent yn rhoi cyflwyniadau, sesiynau canu a sesiynau Celf i bob ystod o ddysgwyr yn y Gaiman, Trelew, Dolavon ac ym Mhorth Madryn. Fe ymwelon nhw ag Ysgol yr Hendre, Ysgol Gymraeg y Gaiman, Ysgol Bryngwyn, Coleg Camwy a Choleg Aliwen yngyd â gwersi´r oedolion, clybiau Cymraeg a Chlwb yr Urdd. Roedd hi´n braf iawn i´w croesawu yma ac rydyn yn ddiolchgar o´r holl waith a wnaed.

Ac felly, dyma ni wedi cyrraedd mis Gorffennaf ac roedd y gwyliau o fewn ein gafael! Bu´r ysgolion a´r clybiau Cymraeg yn brysur yn yr wythnosau ddiwethaf yn paratoi plant tuag at Eisteddfod Mini Bethel. Hyfryd oedd gweld Jenny Jones yn cyd-beirniadu´r cystadlaethau adrodd gyda Nivia Owen. Cafwyd Eisteddfod llwyddiannus tu hwnt a braf oedd gweld cymaint yn cystadlu.

Bu dathliadau mawr ar gyfer Gwŷl y Glaniad ac buom yn ffodus i fynychu seremoni swyddogol Cymdeithas Dewi Sant yn y La Mercante yn Nolavon. Yna, cawsom llenwi ein boliau yn Nghapel Bethlehem. Doedd yna ddim amser am siesta ac ymlaen a ni i Ysgol Bryngwyn i´r Cyngerdd Dathlu. Fe´m diddanwyd gyda wledd o ganu a dawnsio yn Gymraeg, Castellano a Mapuche. Dydd Sul, fe gymeron ni rhan yn y Gymanfa Ganu gyda Anne Jones yn cloi´r gwasanaeth a Jenny Jones yn cyfeilio ar y ffliwt.

Dechreuodd mis Awst yng nghanol prysurdeb ymarferion côr a dawnsio gwerin yn barod at Eisteddfod Mimosa ym Mhorth Madryn. Roedd hi´n ddiwrnod bendigedig a braf oedd cael cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau, er, roedd hi´n noson hwyr iawn! Yna, wrth i´r mis fynd yn ei flaen, parhau gyda´r dathliadau roeddwn ni a chawsom gyfle i gymryd rhan a helpu yng nghyngerdd Ysgol Gymraeg y Gaiman i ddathlu Gwyl y Glaniad a Diwrnod y Gaiman a hefyd cynorthwyo yng nghyngerdd a tê Côr y Gaiman yng ngampfa´r dre. Erbyn diwedd y mis, roeddwn wedi bod yn ffodus iawn i gael llawer o ymwelwyr o Gymru ac felly roedd Noson Gwawr y Gaiman ar ddiwedd y mis, yn croesawu a sgwrsio gyda dwy nyrs sef Angharad a Lauren o´r Brifysgol yng Nghaerdydd a ddaeth i arsylwi yn yr Ysbyty yn Nhrelew am fis. Ymhen ychydig ddyddiau, croesawu ail criw myfyrwyr Santander roeddwn ni´n ei wneud. Roedden nhw´n cyrraedd ar ôl bod yn yr Andes am bythefnos. Cawson nhw bythefnos llawn dop wrth weithio yn yr ysgolion cynradd yn yr Hendre a´r Gaiman, Coleg Camwy yn ogystal â mynychu sesiynau´r oedolion ar hyd y Dyffryn. Roedden nhw o gymorth mawr yn ystod rhagbrofion Eisteddfod y Bobl Ifanc wrth ddiddanu´r plant bach gyda chornel gweithgareddau. Diolchwn yn fawr iawn i Elen, Swyn ag Osian am eu holl gwaith yn ystod eu hamser nhw yma yn y Dyffryn.




Anne Jones    Jenny Jone

Clecs Camwy

Ynghyd â myfyrwyr Santander, roedd hi´n gyfnod o groesawu athrawes newydd o Gymru i Ysgol Gymraeg y Gaiman. Bu Sian Thomas yma yn ystod 2015 yn gwirfoddoli ac mae hi yma y tro yma yn gweithio yn yr Ysgol hyd at y Nadolig.

Roedd cyfnod Eisteddfod y Bobl Ifanc yn gyfnod prysur iawn i bawb gyda paratoi plant yr ysgolion ar gyfer amryw o gystadlaethau. Hefyd, bu Anne Jones yn beirniadu´r cystadlaethau Dawnsio Gwerin gyda chymorth Angelica Evans. Bu hi´n Eisteddfod hynod o lwyddiannus a llongyfarchiadau i´r pwyllgor am drefnu ac i bawb a gystadlodd.

A dyna ni, ynghyd â nosweithiau gyri, dysgu ym Madryn, a sesiynau´r Urdd mae hi´n gyfnod prysur iawn yma yn y Dyffryn. Diolchwn i bawb sydd wedi ein cefnogi ni dros yr with mis ddiwetha a gobeithio fe barhawn gyda´r gwaith caled a llwyddiannus am y ddau fis nesa. Croesawn yr Urdd ar ddechrau wythnos yr Eisteddfod a gyda wythnos llawn o weithgareddau o´m blaenau hoffwn ddymuno pob llwyddiant i bawb yn Eisteddfod y Wladfa.

Gan Anne Jones

# Y Mochyn Du - Cerveceria



Dewch i ymweld â´r Mochyn Du, cervecería newydd y Gaiman! Os ydych am dorri syched mewn awylgyrch cyfeillgar, Cymreig ei naws, dyma´r lle i chi. Bydd Ezequiel Crespo a Matias Lobos y perchnogwyr yn hapus i´ch croesawu am ddiod a sgwrs bob tro. Gwerthir ystod o gwrw a gynhyrchwyd yn lleol, gan gynnwys *cwrw Gaiman*.

Oriau agor: Nos Iau hyd Nos Sul, 9:00 yh ymlaen.




Llun gan Sandra Day

# Ysgol Yr Hendre

Blwyddyn brysur a chyffrous arall yn Ysgol Yr Hendre, gyda llawer o ddathliadau a gweithgareddau diddorol ac addysgiadol. Daeth ymwelwyr ac arbennigwyr o bell ac agos i rannu eu profiadau a'u donniau gyda'r disgyblion.

Cynhelwyd eisteddfodau llewyrchus iawn dros y flwyddyn, gyda chystadlu brwd a llwyddiannus. Llongyfarchiadau mawr i'r sawl fentrodd ar lwyfan yn gyhoeddus, a cafodd cynulleidfaoedd eu swyno gan wledd o dalentau ein pobl ifanc. Braf gweld plant yn cynrychioli yr ysgol mor dda, gyda chefnogwyr selog a balch yn eu cymeradwyo.



Mis Gorffennaf buom yn dathlu Gwyl y Glaniad gan gynnal te prynhawn Cymraeg yn Neuadd Dewi Sant. Roedd y neuadd yn llawn cwsmeriaid llwglyd a darpariwyd lluniaeth bendigedig o gacenau blasus a brechdanau. Hyfryd oedd gweld y gymdeithas yn dod at ei gilydd i ddathlu'r achlysur pwysig hanesyddol yma, ac fe gafwyd adloniant arbennig gan y plant. Yn rhan o ddathliadau Gwyl y Glaniad bu'r plant meithrin, stryd Moreno, yn brysur yn paratoi te Cymreig yn yr ysgol i ymwelwyr pwysig iawn : eu Neiniau a'u Teidiau! Fe wnaeth y plant fwynhau coginio pica bach a bara cartref i'w rannu. Prynhawn bythgofiadwy!



Rydym wedi bod yn lwcus iawn yn croesawu nifer o ymwelwyr i'r ysgol gynradd eleni, (safle Rivadavia ger Capel Moriah): criw bywiog iawn o fyfyrwyr Santander- yn cynnal gweithdai celf, pêl- droed, dawns a chanu; dwy nyrs o Gaerdydd yn rhoi gwersi cymorth cyntaf; awdures enwog Nelvy Bustamante yn ein ysgogi a'n ysbrydoli gan roi darlleniad a sesiwn cwestiynnu, a cafwyd sioe bypedau ar hylendid.

Mae'r disgyblion cynradd wedi bod ar dripiau addysgiadol yn y dref hefyd: Neuadd y Dref a swyddfa'r Maer, braf oedd eu gweld yn ymfalchio ac yn mwynhau y cyfle i eistedd yn ei gader!!!!!!





Anne Jones    Jenny Jones

Clecs Camwy

Yn safle Moreno, yn yr ysgol feithrin, i gyd-fynd gyda'r thema 'yn y gweithle' daeth ymwelwyr i'r ysgol i drafod ac egluro eu swyddi. Fe wnaeth y plant fwynhau sesiwn Valeria Bessone yn egluro sut i drin a thorri gwallt. Aeth y plant i ymweld â siopau a chanolfanau amrywiol o amgylch y dre i ddysgu am y byd gwaith ac i drafod dyletswyddau hefo'r perchnogion / gweithwyr. Roedden nhw wedi mwynhau y siop fara, ysbyty a'r ysgol acrobatic yn fawr iawn!!!

I ddathlu diwrnod y plentyn fe wnaeth disgyblion blwyddyn pump a chwech gynhyrchu gêmau hwyliog i chwarae gyda plant iau yr ysgol. Cafwyd llawer o hwyl yn eu cwmni ac fe gafodd y disgyblion eu gwahodd i fynd i safle Moreno i ddarparu'r gweithdŷ gêmau yno hefyd.

Yn wythnosol cynhelir prynhawn torfol yn safle Rivadavia, ac mae'r disgyblion wrth eu bodd yn dod at ei gilydd i wneud gweithgareddau hwyliog a chymdeithasu drwy'r Gymraeg. Rydym wedi bod yn gwneud gweithgareddau megis coginio: bara, crempog, siocledi, a phica bach; gwneud gwaith celf i addurno'r ysgol; helfa drysor o amgylch ardal Rivadavia; a chynhyrchu dramau i'w perfformio. Cynhalwyd eisteddfod ein hunain, ac yn ddiweddar rydym wedi bod yn brysur yn plannu planhigion a llysiau'r gwanwyn.

Mae'n adeg cyffrous iawn yn yr ysgol yn ddiweddar gan ein bod yn ehangu! Mae'r gwaith adeiladu dosbarth newydd i addysgu'r plant ar safle Rivadavia wedi dechrau. Rydem yn derbyn cyfraniadau at yr achos. Yn y dyfodol agos mae'r disgyblion cynradd yn edrych ymlaen at drip i weld y Pengwiniaid ym Mhunta Tombo gyda chriw yr Urdd, ac mae blwyddyn pump a chwech yn edrych ymlaen i fynd i wersylla yn y Pirámides.

Yn ddyddiol bydd yr ysgol gynradd yn dathlu 'gair Cymraeg y dydd'. Dyma gerdd Maria Paz yn egluro ystyr y gair *ymlacio* yn ddiweddar.

Ymlacio. Mae ymlacio yn liw glas golau, ac yn blasu fel coffi.

Mae ymlacio fel arogli blodau, ac yn edrych fel soffa newydd.

Mae ymlacio yn swnio fel cerddoriaeth glasurol.



Gan Staff Ysgol Yr Hendre

# Coleg Camwy 2017

Mae yna lwyth o ddigwyddiadau wedi bod yn digwydd yn y Coleg eleni a gormod i ni allu sôn amdanynt mewn un tudalen, felly canolbwyntio ar ychydig o ddigwyddiadau sydd wedi bod yn digwydd gyda´r dosbarthiadau Cymraeg ydy´r nôd!

Ar gyfer y Ffair Lyfrau, baratodd dosbarth y Chweched sgetsh ´Y Tri Mochyn Bach´. Nhw oedd wedi ei hysgrifennu, creu´r pypedau a peintio´r theatr oedd yn mynd o gwmpas gyda nhw. I ddechrau, dim ond yn ystod y Ffair Lyfrau roeddent am berfformio, ond gyda llwyddiant ysgubol y sgetsh maent wedi ymweld âg Ysgolion Meithrin a Chynradd yr ardal gan hefyd cynnal gweithgareddau i chyd-fynd â´r stori. Fe wnaethant hefyd berffomio yn Ysgol y Cwm, Trevelin yn ystod eu hymweliad yno yn ddiweddar! Da iawn chi ferched!









Ar ddechrau Awst, ac o dan drefniant Gabriel Restucha cynhaliwyd Eisteddfod Fach Camwy yn y Gampfa yn Gaiman. Rhannwyd holl ddisgyblion y Coleg i bump dŷ a bu´r disgyblion am wythnosau yn paratoi at nifer o gystadlaethau o ddawnsio gwerin a dawnsio traddodiadol yr Ariannin, i ganu, adrodd, deuawdau doniol a chôrau garglio. Braf oedd gweld cynifer o ddisgyblion yn cymryd rhan ac yn mwynhau cystadlu a bod ar lwyfan. Llongyfarchiadau mawr i Gabriel a staff y Coleg am ei llwyddiant ysgubol.

Yn sgîl llwyddiant yr Eisteddfod Fach, braf oedd gweld cymaint o ddisgyblion yn cystadlu yn Eisteddfod yr Ifanc. Gwelwyd grŵp llefaru Cymraeg yn cymryd rhan yn y Seremoni Agoriadol, yn ogystal â chystadlu yn y Parti Adrodd o dan arweiniad Anne Jones ag Esyllt Nest Roberts. Llongyfarchiadau mawr i Graciela Colasante am baratoi y dawnswyr gwerin ac am eu llwyddiant yn yr Eisteddfod. Da iawn bawb!

Edrychwn ymlaen nesa at groesawu Criw yr Urdd i´n plith ac ar Ddydd Mawrth fe fydd cinio yn yr ysgol a chriw bach o´r Chweched a´r Bumed flwyddyn yn eu tywys nhw o gwmpas y Gaiman gan sôn am hanes y dref.

Pob dymuniad da i bawb yn Eisteddfod y Wladfa a phob dymuniad da i´r Coleg wrth ddod i ben â´r flwyddyn academaidd.

Gan Anne Jones

# Dysgu´r Gymraeg



Alcira ydw i. Rydw i'n byw yn Nhrelew ac rydw i'n gweithio fel athrawes yn Ysgol yr Hendre. Ysgol ddwyieithog ydy hi. Rydw i'n dysgu Cymraeg yma, i blant blwyddyn 2 a blwyddyn 3.

Es i'r ysgol yn Nhrelew. Pan orffennais i'r ysgol uwchradd es i i Buenos Aires i astudio yn y brifysgol. Roeddwn i'n byw yna am chwe mlynedd. Astudiais Cyfathrebu, ac ar ôl gorffen des i nôl i Drelew. Dechreuais i i ddysgu Cymraeg yn 2007. Gwnes i gwrs Wlpan 1. Fy athrawesau oedd Ana Chia a Romina Herrera.

Yn 2012 Dechreuais I fel athrawes yn yr ysgol ac o'n i'n dal i astudio'r Gymraeg gyda Ana.

Es i i Gymru yn 2014 i arsylwi mewn ysgolion. Roedd yn brofiad gwych i weld sut mae athrawon yn dysgu yng Nghymru, i gael syniadau. Bues i i mewn dwy ysgol, yng Nghaerdydd ac yng Ngogledd Gymru, Llanrwst, am ddau fis.

Rydw i'n siarad Cymraeg bob dydd yn yr ysgol a pan rydw i'n mynd i ddigwyddiadau cymdeithasol Cymraeg. Rydw i'n mwynhau mynd.

Yr haf yma, cefais gyfle i fynd i Gymru am gyfnod ar ôl ennill ysgoloriaeth i ddilyn cwrs Cymraeg ym mrifysgol Aberystwyth.

Bob dydd, roeddwn yn mynd i´r brifysgol o 9 y bore hyd at 5 o´r gloch y prynhawn. Roeddwn yn dilyn cwrs meistroli´r Gymraeg, grwp 2. Ar ôl i´r sesiynnau ddysgu dod i ben bob dydd, roedd yna amryw o weithgareddau yn seiliedig ar y Gymraeg yn cael eu cynnal. Un diwrnod roedd yna daith cerdded o amgylch ardal Aberystwyth a tro arall roedd yna noson Geltaidd. Roedd hefyd nosweithiau yn y dafarn a nosweithiau dawnsio. Gweithgareddau oedd y brifysgol wedi eu trefnu oedd yr rhain, er mwyn hyrwyddo´r Gymraeg, a rhoi cyfle i´r myfyrwyr defnyddio eu iaith.

Roeddwn i eisiau mynychu´r cwrs yma yng Nghymru er mwyn gwella fy Nghymraeg – fy sgiliau siarad a iaith. Cyn mynd, roeddwn yn gobeithio y byddai´r cyfnod yma yn fy ngalluogi i wella rhuglder fy iaith ar lafar ac hefyd gwella fy sgiliau ysgrifenedig.

Dwi´n gobeithio fod y cwrs wedi fy ngalluogi i fod yn athrawes fwy effeithiol yn yr ysgol oherwydd gyda sgiliau iaith gwell gallaf gefnogi a datblygu´r disgyblion ymhellach yn eu iaith hwythau.

Gan Alcira Williams

Anne Jones Jenny Jones

Clecs Camwy

# Sara Borda Green



Diolch i Mary ac Alwen Green am y llun

Mae Sara Borda Green yn wreiddiol o'r Andes. Cafodd ei geni a'i magu yn Nhrevelin, ond symudodd i Buenos Aires yn ddeunaw oed i astudio Gwyddorau Cyfathrebu, Polisïau Cyhoeddus a Chyfathrebu ac arbenigo mewn cyfryngau digidol, addysg a llenyddiaeth. Ar ôl saith mlynedd yn y brifddinas symudodd nôl i Drevelin er mwyn cymryd rhan yn nathliadau Canmlwyddiant a hanner y Wladfa. Buodd hi'n dysgu Cymraeg i blant Ysgol Feithrin ac i griw'r Arddegwyr, yn ogystal â chyflwyno rhaglen radio Cymraeg-Sbaeneg gyda'r tiwtor Cymraeg. Yng Nghymru mae hi ar hyn o bryd, yn dilyn cwrs MA mewn Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd ym Mhrifysgol Caerdydd.

**SARA BORDA GREEN yn ennill Gwobr Telyn, Tlws Eisteddfod Mimosa, Porth Madryn 2017 dan y ffugenw DOMINGA.**

Terwyn Thomas oedd beirniad cystadleuaeth Tlws Telyn eleni a´r ennillydd oedd Sara Borda Green am ei cherdd yn y wers rydd i Nant y Pysgod, ac am lofruddiaeth Llwyd ap Iwan dan y ffugenw Dominga. Mae y gerdd yn agor gyda cyflwyniad i Llwyd ap Iwan fel "Pensair y paith" a "Peirianydd y paith".

*"Pori gwastadeddau, palu dirgelion,*
*meistroli afon fympwyol, crafu heol syth,*
*pwerau plethiedig ap Iwan*
*fel peiriannydd y Paith."*

Mae Dominga yn llwyddo i ddisgrifio'r lle, y cyfnod a'r naws yn gelfydd, gan ddefnyddio geiriau'n hynod effeithiol. Dyma ddarn sy'n sôn am y diwrnod y daeth y ddau lofrudd i'r Coop:

"*Rhyw awel gynnes yn sisial*
*dros y borfa sych*
*a'r bryniau melynaidd garw*
*yn ceinwrychu......*
*tra bo dau* jotes *yn agosáu ....*

Anne Jones Jenny Jones

Clecs Camwy

Ac yna, yr eiliad dyngedfennol yn yr hanes:

"Bang

*yn araf bach*
*yn araf deg*
*llithra Llwyd i'r llawr.*

*Daw Angau yn fuan*
*i'w gusanu â llwch."*

Yn cloi y cerdd daw newid cyfnod hefyd, a'r bardd yn ymweld â Nant y Pysgod heddiw. Mae un delwedd gref iawn ger y diwedd sy'n sôn am y bardd yn codi darn o lestr toredig:

*"cipiaf ddarn o tseina*
*blodau glas ar gefndir gwyn*
*yn ddiogel yn fy mhoced*
*i grafu 'nghroen yn gyson*
*i'm hatgoffa am y boen."*

Dywed Terwyn Thomas yn ei feirniadaeth: "Daeth dwy gerdd i'r gystadleuaeth eleni. Dwy gerdd wahanol iawn i'w gilydd gan Seren a Dominga, a dwy gerdd sy'n llwyddiannus yn eu ffordd eu hunain. Mae'r ddwy gerdd wedi fy mhlesio'n fawr ond, y tro hwn, y gerdd am Llwyd ap Iwan sydd wedi fy nghyffwrdd fwyaf. Mae Dominga yn llawn deilwng o'r wobr. "

Gan bod Sara Araceli Borda Green (sydd yn enedigol o Drefelin) yn Nghaerdydd ac yn dilyn cwrs prifysgol ar hyn o bryd, cafodd hi ei chynrychiolu gan ei mam Mary Green de Borda. Bu y seremoni yn Steddfod Mimosa yn trawiadol iawn. Llongyfarchiadau.

Gan Luned Gonzalez

****Mae llyfrgell Eluned Morgan yn gofyn i bawb sydd â llyfrau yn perthyn i'r llyfrgell I'w dychwelyd. Gallwch ymweld bore dydd Mawrth a bore dydd Gwener o 9 tan 11. Un o'r llyfrau sydd ar goll ydy y "GEIRIADUR MAWR".**

**Diolch yn fawr am eich cydweithrediad. ****

# 20 mlynedd Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut - llwyddiant?

Grisel Roberts ydy fy enw i. Eleni, enillais i'r gystadleuaeth I bobl Patagonia yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghymru.

Es i i Brifysgol Genedlaethol La Plata a graddiais fel cyfieithwraig Saesneg-Sbaeneg a thiwtor Saesneg. Dychwelais i i Esquel lle dw i bellach yn gweithio fel athrawes mewn cwrs hyfforddi darpar-athrawon Saesneg yn yr Instituto Superior de Formación Docente No. 809. Ar hyn o bryd, ar ben fy ngwaith fel athrawes Saesneg, athrawes Gymraeg Cwrs Wlpan 1 yn Ysgol Gymraeg yr Andes dw i, ac yn parháu gyda fy astudiaethau ar gwrs Gwyddorau Addysg yn y Brifysgol Genedalethol yn Esquel. Mae gwaith a diddordebau yn un i fi wrth I mi ymddiddori yn fawr mewn diwylliant Cymreig, addysg, ieithyddiaeth, hanes a llenyddiaeth.

Dechreuais i ddysgu Cymraeg yn Esquel yn bymtheg oed nôl ym 1998, flwyddyn ar ol i'r cynllun iaith Gymraeg yn Chubut ddechrau. Mae tras Cymreig gen i ar ochr fy nhad ond fi yw'r unig un sy'n siarad Cymraeg yn fy nheulu. Dw i wedi bod yng Nghymru sawl waith a dw I wrth fy modd yno. Eleni, sefais I arholiad Uwch a phasiais I gyda rhagoriaeth. Dw i´n mwynhau astudio Cymraeg yn fawr iawn!

Do'n i ddim yn meddwl fy mod yn mynd i ennill y gystadleuaeth yn yr Eisteddfod. Dyma'r tro cyntaf i mi gymryd rhan mewn cystadleuaeth ysgrifenedig mewn unrhyw Eisteddfod. Dw i'n teimlo'n falch iawn oherwydd dysgais i Gymraeg o'r dechrau a dw i'n teimlo fy mod yn gorfod gwella llawer. Hoffwn ddiolch i bob un o fy athrawon am y Gymraeg dw i'n gwybod ac am fy ysgogi i barhau i ddysgu. Dim ond i bobl geisio cymryd rhan ydy fy nghyngor; hyd yn oed pan mae llawer o bethau i'w gwella a dysgu, gallwch chi dal i ennill. ac os nad ydych chi, mae ysgrifennu a ymarfer yn gwneud yn berffaith!

**Diolch o galon i´r holl gyfranwyr i´r rhifyn yma o Glecs Camwy!**